# Y Ddraig Goch yn clywed y delyn Wyddelig: dylanwad cenedlaetholdeb Iwerddon ar Blaid Genedlaethol Cymru, 1925–1936

Evan Wall

*Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth*

Cyflwynwyd: 19 Mehefin 2024; Derbyniwyd: 10 Mehefin 2025

**Crynodeb**: Roedd Gwrthryfel y Pasg 1916 yn sbardun diwylliannol a arweiniodd yn y pen draw at ffurfio Gwladwriaeth Rydd Iwerddon yn 1921. Hefyd, roedd y gwrthryfel yn ddigwyddiad enghreifftiol i fudiadau cenedlaetholgar gwrth-imperialaidd yn fyd-eang, gan gynnwys yng Nghymru. Bydd yr erthygl hon yn edrych ar ei effaith yng Nghymru drwy ganolbwyntio ar ddau o brif benseiri Plaid Genedlaethol Cymru, sef Saunders Lewis a Lewis Valentine. Ar draws Môr Iwerddon, yng Nghymru, cafodd Lewis a Valentine eu hysbrydoli gan ymdrechion cenedlaetholdeb Gwyddelig. Yn benodol, canolbwyntir ar y dylanwad Gwyddelig ar benderfyniad tri aelod o'r blaid i losgi'r ysgol fomio gan aberthu eu rhyddid. Bydd yr erthygl hon yn dadlau bod cenedlaetholdeb Gwyddelig wedi cael effaith ddofn ar weledigaeth Lewis a Valentine o Gymru a'u hymgyrch genedlaetholgar. Bydd yn canolbwyntio'n arbennig ar sut yr ysbrydolwyd dulliau diwylliannol, cyfansoddiadol ac anghyfansoddiadol Plaid Genedlaethol Cymru gan esiampl cenedlaetholwyr Gwyddelig.

**Allweddeiriau**: Saunders Lewis, Lewis Valentine, Plaid Cymru, Gwrthryfel y Pasg, Ymerodraeth, Cymru ac Iwerddon, Sinn Féin.


## The Welsh Dragon hears the Irish Harp: the impact of Irish Nationalism on Plaid Genedlaethol Cymru, 1925–1936.

**Summary**: The Easter Rising 1916 was a cultural trigger point that led to the forming of the Irish Free State in 1921. Also, the uprising was a guiding moment for anti-imperialist nationalist movements globally, including in Wales. This article will look at its impact in Wales by focusing on two of Plaid Genedlaethol Cymru's main architects – Saunders Lewis and Lewis Valentine. Across the Irish Sea, in Wales, both Saunders and Valentine were inspired by the efforts of Irish nationalism. This article will focus particularly on the Irish influence on the decision of three members of the party to burn the bombing school

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

and sacrifice their freedom. It will be argued that Irish nationalism had a profound effect on Saunders' and Valentine's vision of Wales and the methods they would adopt in their nationalist campaign. The particular focus of this article will be how Plaid's cultural, constitutional and unconstitutional methods were inspired by the Irish nationalists' example.

**Key Words:** Saunders Lewis, Lewis Valentine, Plaid Cymru, The Easter Rising, Imperialism, Wales and Ireland, Sinn Féin.




NLW, Y Ddraig Goch (Rhagfyr 1936)

Crëwyd y cartŵn uchod, 'Y Newid Sydd', ar ddiwedd ymgyrch wleidyddol Plaid Genedlaethol Cymru (Plaid Cymru heddiw) yn ystod y cyfnod rhwng y ddau ryfel byd, ac mae'n grynodeb ffeithiol o'u hargyhoeddiad yn ystod y cyfnod. Mae'r llun yn dangos y Ddraig Gymreig yn ymladd yn erbyn gafael cryf y cyfalafwr diwydiannol o Sais, 'John Bull', sy'n tynnu Cymru oddi wrth ei 'thraddodiadau' a'i gwreiddiau. Yr unig wrthwynebiad a geir yw'r gynffon sy'n glynu at y goeden. Ar y gynffon, gwelwn y geiriau 'Y Blaid Genedlaethol' er mwyn dangos i'r darllenwyr mai Plaid Genedlaethol Cymru yn unig sy'n ymladd dros hunaniaeth

unigryw Cymru fel cenedl. Creodd Plaid Genedlaethol Cymru ei halegori ei hun fel yr unig filwr yn y frwydr i amddiffyn y genedl Gymreig rhag y niwed a ddaeth o'i huno â Lloegr, a dylanwad cyfalafiaeth imperialaidd. Mae'r teitl 'Y Newid Sydd' yn rhybudd i'r Cymry eu bod mewn perygl o golli eu gwreiddiau a'u traddodiadau os nad ydynt yn ymuno â Phlaid Genedlaethol Cymru yn eu gwrthsafiad yn erbyn cyfalafiaeth imperialaidd Seisnig.

Sefydlwyd Plaid Genedlaethol Cymru (PGC) yn swyddogol ym Mhwllheli yn 1925 gan Saunders Lewis, Lewis Valentine, a phedwar unigolyn arall.[1] Dewiswyd Valentine fel y llywydd cyntaf, ond oherwydd afiechyd aed ati i drosglwyddo'r awenau i Lewis a fu'n arweinydd rhwng 1926 a 1939.[2] Er eu bod yn falch o'u hetifeddiaeth yn gyffredinol, mae'n well gan y Blaid heddiw leihau'r cof o'u camau cychwynnol. Mewn cyfweliad ar BBC Radio Cymru yn 2023, gofynnodd Dewi Llwyd (gohebydd â dealltwriaeth dda o hanes PGC) i'r arweinydd newydd, Rhun ap Iorwerth, sut oedd yn teimlo ynghylch canlyn arweinwyr blaenorol PGC. Dechreuodd Llwyd ei restr o'r arweinwyr gyda Gwynfor Evans, y llywydd ar ôl 1945, gan osgoi yn fwriadol enwau Lewis a Valentine.[3] Gyda mymryn o embaras, efallai, ni chywirodd Iorwerth y sensro o fodolaeth PGC rhwng y rhyfeloedd.[4]

Daw'r cymylu hwn o'r gorffennol o ganlyniad i'r ffaith bod Saunders Lewis yn cael ei gysylltu â ffasgaeth. Gyda dechreuad yr Ail Ryfel Byd yn 1939 a'r galwad i ddynion Cymru ymladd yn y fyddin Brydeinig, gwthiodd Lewis i'r Blaid gymryd safiad niwtral, yn debyg i un Iwerddon. Disgrifiodd y rhyfel yn erbyn yr Almaen fel un ymerodraethol, a oedd yn mynd yn erbyn yr hyn a oedd o les i Gymru.[5] Beirniadwyd y safbwynt hwn yn ffyrnig, yn enwedig gan Gwilym Davies, cyn-aelod uchel ei barch o PGC, a ysgrifennodd y traethawd 'The Fascist Party in Wales', yn honni bod Lewis yn dymuno ailsefydlu 'a Welsh Christian-state' a fyddai'n dotalitaraidd ac yn Babyddol.[6] Mae'r gwyddonydd gwleidyddol Richard Wyn Jones yn dadlau bod yr honiadau hyn gan Davies ac eraill yn 'amhosib i'w cymryd o ddifri' heb dystiolaeth bendant, gyda Jones yn awgrymu hefyd fod y cyhuddiad o ffasgaeth wedi'i ddyfeisio er mwyn cynnal undod rhwng gwleidyddion yn ystod y rhyfel.[7] Mae'n anodd anghytuno â'r asesiad hwn: rhwng y rhyfeloedd, daeth ffasgaeth yn derm poblogaidd i'w ddefnyddio er mwyn labelu gelynion gwleidyddol mewn cyfres o frwydrau 'lluchio baw'.[8]

Er cyfraniad gwerthfawr Wyn Jones, mae'r honiad fod PGC yn blaid ffasgaidd o dan arweiniad Lewis yn dal i gael lle penodol mewn cylchoedd gwleidyddol ac academaidd. Er enghraifft, mewn dadl seneddol yn 2002, dywedodd yr AS Llafur Wayne David: 'He [Saunders

---

[1] Saunders Lewis, Lewis Valentine, Fred Jones, David Edmund Williams, Moses Griffith a H. R. Jones oedd sylfaenwyr Plaid Genedlaethol Cymru.

[2] Jones, J. Graham (1982), 'Forming Plaid Cymru, Laying the Foundations, 1923–26', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 22 (4), tt. 435–49.

[3] '*Dros Ginio*', BBC Radio Cymru, 16 Gorffennaf 2023.

[4] Ibid.

[5] Jones, Richard Wyn (2014), *The Fascist Party in Wales? Plaid Cymru, Welsh Nationalism and the Accusation of Fascism* (Cardiff: University of Wales Press), t. 5.

[6] National Library of Wales (NLW) (1943), Lewis, Saunders, a Daniels, J. E. (1943), *The Party for Wales, Replies to Mr Gwilym Davies* (Caernarfon: Nationalist Offices), tt. 2–5.

[7] Jones, *The Fascist Party in Wales?*, tt. 10–16.

[8] Jackson, Julian (2001), *France: The Dark Years, 1940–1944* (Oxford: Oxford University Press), tt. 22–24.

Lewis] could embrace the corporalist ideas of Mussolini with whom he was enamoured. He had plenty of time for the racist remarks of various fascists'.[9] Mae'r cyhuddiad parhaol hwn fod y Blaid yn ffasgaidd wedi peri i'r blaid gyfoes, gan gynnwys yr arweinydd Rhun ap Iorwerth, geisio anghofio am fodolaeth PGC rhwng y rhyfeloedd.

Tim Williams, cyn-gynghorydd i'r Llywodraeth Brydeinig, yw'r unig academydd i ddadlau'n uniongyrchol fod Lewis yn ffasgydd a bod cysylltiad rhyngddo a ffasgwyr penodol fel Hitler. Yn y rhaglen deledu '*Tin Gods. Saunders Lewis: Dangerous Mind*' (a ddarlledwyd yng Nghymru am y tro cyntaf yn Awst 2001), mae Williams yn chwarae rhan ganolog yn yr anghymeradwyaeth gyhoeddus o Lewis fel ffasgydd.[10] Mae Williams yn cynnig '[Saunders] Lewis' views on race expressed in his writing aligned him with the German dictator [Hitler]' a 'he [Lewis] basically had the view that Hitler was a good thing because he stopped the financial power of the Jews from taking over Germany'.[11] Yn ychwanegol, mae Williams yn disgrifio rhan Lewis wrth losgi'r ysgol fomio fel gweithred o 'fascist methods', ond nid yw Williams yn esbonio nac yn ehangu ar sut y mae penderfyniad Lewis a PGC i losgi'r ysgol fomio yn gyfatebol i unrhyw fudiad a oedd yn uniaethu â Ffasgaeth.[12] Mae Richard Wyn Jones yn honni bod rhan o'r dystiolaeth y mae Williams yn ei defnyddio i gysylltu Lewis â'r Natsïaid yn ffug, gan gwestiynu hygrededd Williams fel 'hanesydd' a dinistrio'r honiad bod cysylltiad rhwng Lewis a'r Natsiaidd.[13] Ond wrth i Wyn Jones wrthbrofi cais Williams a herio'r ddadl hanesyddol fod Lewis yn Ffasgydd, nid yw dadl Wyn Jones yn mynd yn ddigon pell i egluro'r hyn a ysbrydolodd Lewis ac ymgyrch PGC. Oherwydd hyn, mae Wyn Jones yn cyfrannu mwy at egluro'r hyn nad oedd PGC yn ei gynrychioli, yn hytrach nag i'r gwrthwyneb.

Y tu hwnt i Williams a Wyn Jones, mae mwyafrif y llenyddiaeth drawswladol ar Saunders Lewis yn pwysleisio dylanwad adain dde eithafol Ffrainc. Er enghraifft, mae astudiaeth drawswladol yr hanesydd Gwyn Williams yn dadlau 'the works of [Maurice] Barrés, [Charles] Maurras, and Action-Française (AF) loomed large [in Lewis' nationalism]'.[14] Mae hwn yn honiad arwyddocaol gan fod gwaith yr hanesydd dylanwadol Robert Soucy yn disgrifio Maurras fel Ffasgydd ac mae aelodau AF yn cael eu cydnabod fel cyd-weithwyr â'r Natsïaid yn Vichy, Ffrainc.[15] Er nad yw Williams yn disgrifio PGC yn benodol fel mudiad ffasgaidd, mae'r cysylltiad a wna rhwng ideoleg Lewis ac AF yn awgrymu bod modd ystyried PGC fel plaid ffasgaidd yn y pen draw.[16]

---

[9] Wyn Jones, *The Fascist Party in Wales?*, t. 22.
[10] Ibid.
[11] Ibid.
[12] Ibid.
[13] Jones, Richard Wyn (2014), 'On the making and making up of Welsh history: A response to David Melding, Robert Stradling and Tim Williams', IWA Wales, 29 Hydref, <https://www.iwa.wales/agenda/2014/10/on-the-making-and-making-up-of-welsh-history-a-response-to-david-melding-robert-stradling-and-tim-williams/> [Cyrchwyd: 10 Hydref 2024].
[14] Williams, Gwyn (1991), *When Was Wales? A History of the Welsh* (London: Penguin), tt. 278–81.
[15] Soucy, Robert (1986), *French Fascism: The First Wave, 1924–1933* (New Haven: Yale University Press), tt. 1–10.
[16] Ibid.

Yn broblematig, nid yw dadansoddiad Williams o'r cysylltiad rhwng Lewis, Maurras ac AF yn un treiddgar ac nid yw'n defnyddio tystiolaeth gref o'r cysylltiad. Hefyd, mae'n methu dangos yn bendant neu ddatblygu'r ddadl ynghylch sut y dylanwadodd AF neu Maurras ar Lewis fel arweinydd gwleidyddol.[17] Mae gweithiau fel un Williams yn bwysig gan fod haneswyr a damcaniaethwyr gwleidyddol o'r tu hwnt i Gymru yn ddibynnol ar destunau fel testun Williams wrth lunio eu dadansoddiad eu hunain o Lewis a PGC (efallai oherwydd ffiniau iaith). Gan gyfeirio at Williams, er enghraifft, ysgrifennodd Eric Hobsbawm: 'the founder of Plaid Cymru was by affinity a continental reactionary of the stamp of Charles Maurras'.[18] Felly, heb ehangu ar y cysylltiad na chyflwyno tystiolaeth fod Lewis yn edrych tuag at AF am ysbrydoliaeth, mae Williams a Hobsbawm yn cysylltu Lewis a'i wleidyddiaeth yn agos iawn â ffasgaeth.[19]

Gwendid mwyaf astudiaethau fel un Williams yw'r diffyg tystiolaeth empirig sy'n dangos bod Lewis wedi edrych tuag at adain dde Ffrainc am ysbrydoliaeth, ac yna wedi efelychu eu syniadau gwleidyddol yng Nghymru. Yn groes i hynny, mae tystiolaeth empirig i'w chael sy'n awgrymu bod Lewis wedi gwrthod y cais bod AF yn fodel ar gyfer PGC neu'n ddylanwad ar ei feddwl gwleidyddol. Mor gynnar â 1927 – pan oedd Ffasgaeth yn ideoleg wleidyddol barchus a oedd yn cael ei hedmygu ledled Ewrop[20] – dywedodd Lewis nad oedd gan feddwl gwleidyddol Maurras 'unrhyw ddylanwad arnaf i [Lewis]'. Hefyd, gwrthwynebodd Lewis ideoleg AF; disgrifiwyd gwleidyddiaeth AF yn 'Wrth-Ewropeaidd' wrth honni nad yw Cymru'n bodoli oni bai ei bod fel rhan o Ewrop.[21] Mae geiriau Lewis ei hun yn awgrymu nad oeddynt yn edrych ar AF fel delfryd wleidyddol ar gyfer PGC.[22] Parhaodd Lewis yn gyson i atal cysylltiad rhwng ei wleidyddiaeth ef ac AF a Maurras. Yn 1942, honnodd Gwilym Davies fod PGC yn 'politically the child of the French Action Française' ac yn ddyledus i Maurras.[23] Ymatebodd Lewis fod ei wleidyddiaeth ei hun yn 'ysbryd yn gyntaf, gwleidyddiaeth yn ail', yn groes i Maurras a oedd yn blaenoriaethu'r gwleidyddol.[24] Drwy gydol yr erthygl, gwnaeth Lewis sicrhau nad oedd cysylltiad rhwng ei ideoleg ef ac ideoleg AF, a phwysleisiodd nad oedd PGC yn edmygu ideoleg wleidyddol Maurras.[25] Mae cyfeiriad Williams at AF a'i arweinydd Charles Maurras yn arwain darllenwyr i gredu bod Lewis yn ffasgydd. Ond mae dwy erthygl Lewis yn awgrymu'n glir nad oedd gwleidyddiaeth adain dde Ffrainc yn olau arweiniol ar gyfer ei weledigaeth wleidyddol.

Mae cyfeiriad Williams at Maurice Barrés hefyd yn arwyddocaol. Ond nid Williams yw'r unig academydd i gysylltu gweledigaeth Lewis â Barrés. Mae dadansoddiadau mwy

[17] Ibid.
[18] Hobsbawm, Eric (1992), *Nations and Nationalism Since 1780: Programme, Myth and Reality* (Cambridge: Cambridge University Press), t. 139.
[19] Hobsbawm, *Nations and Nationalism*, t. 139.
[20] Passmore, Kevin (2002), *Fascism: A Very Short Introduction* (Oxford: Oxford University Press), t. 10.
[21] Lewis, Saunders (1927), 'Llythyr Ynghylch Catholigaeth', *Y Llenor*, 6, 15.
[22] Lewis, 'Llythyr Ynghylch Catholigaeth', t. 2.
[23] Davies, Gwilym (1942), 'Cymru Gyfan a'r Blaid Genedlaethol Gymreig', *Y Traethodydd*, Gorffennaf, 97–111.
[24] Ibid., 2–5.
[25] Ibid.

cyfoesol yn creu'r un dadleuon; ysgrifennodd Gwynn ap Gwilym fod cenedlaetholdeb Lewis yn gyplad o genedlaetholdeb Maurice Barrés ac Emrys ap Iwan.[26] Nofelydd Ffrengig oedd Barrés ac yn ôl dadl Zeev Sternhell, cafwyd sawl mudiad Ffrengig adain dde aflwyddiannus o 1890 ymlaen eu dylanwadu'n gryf gan Barrés. Mae'r llenyddiaeth am Ffrainc yn ystyried Barrés fel y symbol cyntaf o Ffasgaeth yn Ffrainc.[27] Wrth gyfeirio at y cysylltiad rhwng Barrés a Lewis, mae Williams a Gwilym yn gadael i'w darllenwyr ystyried a oedd Lewis yn ffasgydd hefyd.

Mae pwyslais Williams a Gwilym ar ddylanwad Barrés yn ddigon teg er mwyn egluro tröedigaeth Lewis i genedlaetholdeb, ond mae'n anghrediniol wrth geisio deall PGC ei hun rhwng y rhyfeloedd fel mudiad gwleidyddol. Gwaith llenyddol Barrés, nid ei draethodau gwleidyddol, a gafodd y dylanwad mwyaf ar Lewis.[28] Mae'n bosibl y gwnaeth Barrés ysbrydoli cenedlaetholdeb Lewis trwy ei ddysgu i feithrin ei bersonoliaeth trwy ailgysylltu â'i wreiddiau, ond yn sicr, nid oedd syniadau Barrés yn lasbrint i PGC fel mudiad ynddo'i hun.

Os oedd Lewis yn gwrthod yr haeriadau ei fod yn dilyn esiampl adain dde Ffrainc ac na ellir deall ei genedlaetholdeb yn llawn wrth edrych ar ddylanwad Barrés, y cwestiwn amlwg yw: pa fudiadau cenedlaetholgar y tu hwnt i Gymru a ddylanwadodd ar wleidyddiaeth Lewis a PGC?

Bydd yr erthygl hon yn dadlau mai cenedlaetholwyr Gwyddelig yr ugeinfed ganrif oedd y brif ffynhonnell a arweiniodd Saunders Lewis a Lewis Valentine – prif benseiri PGC. Fel rhan o Wrthryfel 1916, gwelwyd dros fil o genedlaetholwyr Gwyddelig (a gafodd eu henwi'n anghywir fel Sinn Féin – plaid genedlaetholgar Arthur Griffith – gan yr awdurdodau Prydeinig) yn meddiannu Dulyn am chwe niwrnod cyn ildio i'r fyddin Brydeinig.[29] Gobaith y gwrthryfelwyr hyn, dan arweiniad Patrick Pearse, oedd ennill 'sofraniaeth' i Iwerddon. Roedd yn fethiant enfawr yn filwrol, ond pan ddienyddiwyd pymtheg gwrthryfelwr (gan gynnwys Pearse) a charcharwyd 3,400 o wrthryfelwyr a dinasyddion Gwyddelig eraill yn sgil y gwrthryfel, creodd hyn ffydd genedlaethol a oedd yn hanfodol er mwyn ennill annibyniaeth lawn i Iwerddon yn 1922.[30]

Yn gyffredinol, mae nifer yn dadlau bod y gwrthryfel hwn yn ddigwyddiad tyngedfennol ar gyfer mudiadau cenedlaetholgar a gwrth-imperialaidd ar raddfa fyd-eang.[31] Dros y môr yng Nghymru, roedd Lewis a Valentine yn addoli wrth allor Pearse a'i ddilynwyr. Roedd

---

[26] Gwilym, Gwynn ap (2011), *Stori Saunders Lewis: Bardd y Chwyldro yng Nghymru* (Abertawe: Cyhoeddiadau Barddas), t. 17.

[27] Sternhell, Zeev (1986), *Neither Right nor Left: Fascist Ideology in France* (Berkeley, UDA: University of California), tt. 1–10.

[28] Ysgrifennodd Saunders ei ddrama gyntaf yn y 1920au cynnar. Roedd yn adleisio nofel Maurice Barrés, *Colette Baudouche*. Gweler: Gwilym, *Stori Saunders Lewis*, t. 29.

[29] Hoyt, Timothy (2017), 'The Easter Rising and the Changing Character of Irregular Warfare', yn Dal Lago, E., Healy, R., a Barry, G. (goln), *1916 in Global Context: An Anti-Imperial Moment* (London: Routledge), t. 18.

[30] Laffan, Michael (1999), *The Resurrection of Ireland: The Sinn Féin Party, 1916–1923* (Cambridge: Cambridge University Press), t. 51.

[31] 'Introduction', yn Dal Lago, Healy a Barry (goln), *1916 in Global Context*, tt. 3–9.

Valentine yn benodol yn ystyried y gwrthryfel fel yr achlysur pan gafodd Iwerddon ei 'haileni fel cenedl'.[32] Yn 1916, tra bod Valentine yn gwasanaethu mewn barics Prydeinig, dechreuodd rannu syniadau'n gyfrinachol â 'nest of Sinn-Feinners' lleol.[33] Pan ddechreuodd Gwrthryfel y Pasg, clywyd sibrydion y gallai bataliwn Valentine gael ei ddanfon i Ddulyn er mwyn tawelu'r aflonyddwch yno. Yn ei ddyddiadur, ysgrifennodd Valentine: 'os daw gorchymyn, i anufuddhau iddo'. Roedd Valentine yn gefnogwr brwd o'r gwrthryfel ers y cychwyn.[34] Yn ei henaint, hyd yn oed, disgrifiodd Patrick Pearse fel 'dyn gwych' i'w fywgraffydd.[35]

Yn yr un modd, disgrifiodd Lewis Patrick Pearse fel 'sant a gweledydd', ac roedd gan Lewis gysylltiadau â changen Sinn Féin yng Nghaerdydd yn y cyfnod rhwng y rhyfeloedd.[36] Mae ei ohebiaeth yn datgelu ei fod wedi darllen 'llyfr gan Pearse, y Merthyr Gwyddelig o 1916' ac yna wedi 'braslunio er lles rhai ffrindiau'r syniad o ryw ysgol o'r fath yn fy ngwlad fy hun'.[37] Cafodd cenedlaetholdeb Gwyddelig effaith gref ar weledigaeth Valentine a Lewis am Gymru, a'r math o ddulliau y byddant yn eu defnyddio yn eu hymgyrch wleidyddol.

Cafodd yr esiampl Wyddelig effaith fawr ar benseiri PGC mewn sawl ffordd. Bydd yr erthygl hon yn gweithio tuag at ddadansoddi sut y cafodd yr esiampl Wyddelig ddylanwad ar eu syniadau diwydiannol, diwylliannol a chyfansoddiadol a'u gweithredoedd anghyfansoddiadol. Mae crynodeb o ymdrechion cenedlaetholgar PGC rhwng 1925 a 1935 yn cynnwys sawl methiant diwylliannol a chyfansoddiadol wrth geisio creu ymwybyddiaeth Gymreig newydd. Daeth trobwynt yn 1936 gyda 'moment o ferthyrdod' pan gyflawnodd Saunders Lewis, Lewis Valentine ac aelod arall o'r Blaid, sef D. J. Williams, ymosodiad o losgi bwriadol ar Lywodraeth Prydain.[38] Prif ffocws yr erthygl hon fydd sut y gwnaeth yr esiampl Wyddelig, yn enwedig yr esiampl o aberth yng Ngwrthryfel 1916, ysbrydoli merthyrdod y tri yn 1936. Nid yw'r dadansoddiad hwn yn honni bod Gwrthryfel 1916 a llosgi'r ysgol fomio yn ddigwyddiadau sy'n gallu cael eu cymharu'n uniongyrchol. Mae'n glir bod graddfa ac effaith Gwrthryfel 1916 yn llawer mwy na llosgi'r ysgol fomio. Yn hytrach, dadleuir yn yr erthygl fod egwyddor y ddwy weithred yn gymharol i raddau, a bod Gwrthryfel 1916 yn hanfodol i'n dealltwriaeth am ddigwyddiad yr ysgol fomio yn 1936. Yn y ddau achos, roedd yr arweinwyr yn ceisio 'deffro eu cenhedloedd' ac ennill cydymdeimlad â'u hachosion cenedlaetholgar. Yn bwysicaf oll, roedd penderfyniad y tri i ddefnyddio dulliau anghyfansoddiadol, i aberthu eu rhyddid ac i aberthu gwrandawiad teg yn y llys – drwy eu defnydd o'r Gymraeg – wedi'i ysbrydoli gan eu canfyddiad o 1916.

---

[32] NLW, Valentine, Lewis (1932), 'Mam Patrick Pearse', *Y Ddraig Goch*, Mai, 6.
[33] Valentine, '*Dyddiadur Milwr*', t. 69.
[34] Ibid.
[35] Emyr, John (gol.) (1988), Valentine, Lewis, *Dyddiadur Milwr a Gweithiau Eraill* (Llandysul: Gomer), tt. 1–5.
[36] S. L. at M. G., 17 Hydref 1921, yn Jones, M. S., Thomas, N., a Pritchard Jones, H. (1993) (goln), *Letters to Margaret Gilcriest* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), t. 472.
[37] S. L. at M. G., 18 Mawrth 1918, yn ibid., t. 278.
[38] Dyfyniad o eiriau Gwyn Williams, yn McAllister, Laura (2001), *Plaid Cymru: The Emergence of a Political Party* (Bridgend: Seren), t. 30.

Prif fwriad yr erthygl hon yw ceisio cael gwared ar y pwyslais ar adain dde eithafol Ffrainc fel y dylanwad hollbwysig ar PGC rhwng y rhyfeloedd, ac yn hytrach mae'n cynnig mai'r esiampl Wyddelig o genedlaetholdeb oedd y model hanfodol a ysbrydolodd wleidyddiaeth PGC. Mae'r hanesydd Graham Jones yn dadlau bod 'yr esiampl Wyddelig wedi cael ei wrthod', gan wadu bod unrhyw gysylltiad rhwng cenedlaetholwyr Cymru ac Iwerddon ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.[39] I gyferbynnu â hyn yn llwyr, bydd yr erthygl yn dangos y dylanwad enfawr a gafodd gwrthryfelwyr 1916 a phlaid Sinn Féin ar ideoleg, uchelgeisiau a dulliau PGC.

Bydd yr erthygl yn astudio ymgyrch PGC mewn gweithred, gan ddadansoddi ei datblygiad (a ysbrydolwyd gan Iwerddon) o genedlaetholdeb diwylliannol a chyfansoddiadol i drais symbolaidd a fyddai'n rhoi PGC ar y dudalen flaen am gyfnod. Eir ati i fapio sut yr oedd uchelgeisiau cynnar PGC yn cynnwys ymgyrch etholiadol a oedd yn efelychu polisi Sinn Féin o ymatal. Hefyd, diffiniwyd blynyddoedd cynnar PGC gan ysgolion haf a oedd yn debyg i weithgareddau Patrick Pearse a'r gynghrair Aeleg (*Conradh na Gaeilge*), sef mudiad a oedd yn gobeithio deffro ac amddiffyn Iwerddon drwy hyrwyddo'r Wyddeleg. Roedd ysgolion haf PGC yn fath o ffair ar gyfer trafodaethau gwleidyddol, lle y cafodd pryderon diwylliannol eu hystyried fel materion llywodraethol. Roedd yr ysgolion haf yn ddigwyddiadau pwysig a ddefnyddiwyd gan PGC er mwyn creu teimladau cenedlaetholgar o'r gwaelod i fyny. Nesaf, ystyrir sut yr oedd Lewis a Valentine yn teimlo bod angen iddynt losgi'r ysgol fomio yn 1936 er mwyn tynnu sylw at yr achos dros genedlaetholdeb Cymru. Bydd dadansoddiad o'r ymosodiad yn dangos bod profiad y Rhyfel Byd Cyntaf ac arsylwadau o Wrthryfel y Pasg 1916 yn ffynonellau hanfodol o ysbrydoliaeth, gan eu bod wedi hyrwyddo'r syniadau canolog o weithredu'n uniongyrchol a hunanaberth. Yn wahanol i'r prif gofnodion am PGC, bydd yr erthygl yn dangos bod bodolaeth wleidyddol cenedlaetholdeb Cymreig wedi dechrau yng nghyfnod Lewis a Valentine rhwng y rhyfeloedd, ac oni bai am y gwersi a ddysgwyd oddi wrth genedlaetholdeb Wyddelig, buasai creadigaeth Plaid Cymru yn anodd ei dychmygu.

## Ymdrechion diwylliannol a chyfansoddiadol

Yn 1926, cynhaliwyd ysgol haf Gymraeg gan PGC lle y byddai aelodau'r blaid a phobl ifanc yn mynd i ddosbarthiadau ar bynciau o bryder gwleidyddol a diwylliannol. Erbyn 1929, rhedodd PGC ei hymgyrch gyntaf ar gyfer etholiad cyffredinol gyda Valentine fel yr ymgeisydd ar gyfer sedd Caernarfon. Gwnaethant fethu'n druenus, gan ennill dim ond 609 o bleidleisiau (tua 2% o'r bleidlais).[40] Erbyn 1936, trodd Saunders Lewis, Lewis Valentine a D. J. Williams (aelod pwysig o PGC) at drais gwleidyddol,[41] trwy losgi ysgol Fomio'r RAF a oedd hanner ffordd drwy gael ei hadeiladu ar Benrhyn Llŷn. Ar ôl y llosgi bwriadol, teithiodd y tri dyn i orsaf heddlu Pwllheli gan ddweud wrth y swyddogion bod yn rhaid

[39] Jones, J. Graham (1983), 'Forming Plaid Cymru, Searching for a Policy 1926–30', *National Library of Wales Journal*, 23 (2), tt. 183–5.

[40] Gwilym, *Stori Saunders Lewis*, t. 43.

[41] Bu D. J. Williams yn ffigwr pwysig ym Mhlaid Cymru am bron i 60 o flynyddoedd. Roedd bwriad ganddo i fynd i gyfarfod sefydlu Plaid Cymru ym Mhwllheli yn 1925, ond methodd y trên.

iddynt losgi'r ysgol fomio oherwydd y byddai ei bodolaeth 'yn peryglu holl ddiwylliant a thraddodiadau un o ardaloedd mwyaf Cymraeg Cymru'.[42] Roeddent yn gobeithio y byddai eu merthyrdod yn uno'r Cymry y tu ôl i achos PGC. Fel y nododd Valentine, prif dasg y Blaid oedd 'deffro'r genedl', ac mae'r cyfnod rhwng 1925 a 1936 yn un lle y gwelwyd PGC yn ceisio gwneud hynny drwy unrhyw fodd posibl.[43]

Er mwyn deall yn iawn sut y symudodd crwsâd gwleidyddol PGC o'r ystafell ddosbarth, trwy'r gorsafoedd pleidleisio i weithred o aberth a merthyrdod treisgar, mae angen ystyried cenedlaetholdeb Gwyddelig a'i droad tuag at drais. Ers dechrau'r ugeinfed ganrif, datblygodd cenedlaetholdeb Gwyddelig a ddefnyddiai ddulliau diwylliannol ac etholiadol i genedlaetholdeb a ddefnyddiai ddulliau treisgar. Roedd chwech o'r saith a lofnododd y 'Proclamation of the Irish Republic' (1916) yn gyn-aelodau o'r Gynghrair Aeleg.[44] Mae datblygiad cenedlaetholdeb Patrick Pearse yn debyg i ddatblygiad plaid Lewis a Valentine; roedd Pearse yn ffynhonnell o ysbrydoliaeth. Roedd Pearse yn aelod gweithgar o'r Gynghrair Aeleg weithgar ac yn 1908 agorodd ei ysgol St Enda fel rhan o'r achos cenedlaethol.[45] Yna, yn 1911, ailymunodd Pearse â gwleidyddiaeth, gan obeithio y byddai'r ymgyrch dros ymreolaeth yn llwyddo. Ar ôl gohirio Deddf Hunanlywodraeth Iwerddon yn 1914, dadrithiwyd Pearse ynghylch dulliau cenedlaetholdeb cyfansoddiadol a diwylliannol. Erbyn 1916, byddai Pearse yn cael ei ddienyddio am arwain y Gwrthryfel.[46] Mae Hutchinson yn dadlau mai uchelgais cenedlaetholdeb diwylliannol yw ysbrydoli 'syniad o dreftadaeth gyffredin o ysblander a dioddefaint'.[47] Gellir ystyried Gwrthryfel y Pasg 1916 a llosgi'r ysgol fomio 1936 fel gweithredoedd a fwriadwyd i danio ysbryd cenedlaetholgar yn eu hetholwyr ar ôl i'w dulliau diwylliannol a chyfansoddiadol blaenorol fethu â chael effaith.

Cynhaliodd y gynghrair Aeleg a Patrick Pearse ysgolion haf gyda'r nod o greu 'ysbryd cenedlaethol' o fewn y genhedlaeth ifanc trwy ddysgu Gwyddeleg iddynt ar deithiau i Iwerddon draddodiadol.[48] Wrth ddisgrifio un o'i deithiau, ysgrifennodd Pearse: 'I was leaving anglicisation ... Before me lay the Gaeltacht ... the spiritual passionate Gael with his simple beautiful customs, speaking his own language'. Roedd yn cymryd ei fyfyrwyr ar daith ysbrydol i genedligrwydd Gwyddelig.[49]

Ar bapur, y nod oedd dysgu'r Wyddeleg i fyfyrwyr, ond yn ymarferol roedd yr ysgolion

---

[42] Jenkins, Dafydd (1998), *A Nation on Trial* (Cardiff: Welsh Academic Press), t. 7.
[43] Jenkins, *A Nation on Trial*, t. 41.
[44] Doyle, Aidan (2015), *A History of the Irish Language: From the Norman Invasion to Independence* (Oxford: Oxford University Press), t. 208.
[45] Roedd gan ysgol Pearse gwricwlwm clasurol gyda phwyslais trwm ar yr iaith Wyddeleg. Disgrifiodd John Henry St Enda fel 'nursery of character, intellect, patriotism, and virtue', a cheisiodd ysgol Pearse greu ymdeimlad o fod yn rhan o grŵp hanesyddol pwysig a dioddefus a unwyd gan genedligrwydd. Gweler: Augusteijn, Joost (2010), *Patrick Pearse: The Making of a Revolutionary* (London: Palgrave), tt. 157–60.
[46] Ibid.
[47] Hutchinson, John, a Smith, Adam (1994), *Nationalism* (Oxford: Oxford University Press), tt. 123–4.
[48] Yn 1905, ymwelodd Pearse â Connemara, rhan Wyddelig o orllewin Iwerddon lle y siaredid yr Wyddeleg, ac adeiladodd fwthyn traddodiadol Gwyddelig er mwyn cynnal ysgol haf i'w fyfyriwr o Ddulyn – allan o'i boced ei hun. Gweler: Augusteijn, *Patrick Pearse*, t. 97.
[49] Doyle, *A History of the Irish Language*, t. 198.

yn bodoli er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth genedlaethol Wyddelig a theimlad gwrth-Brydeinig. Fel y cyfaddefodd Pearse yn ei erthygl 'The Coming Revolution': '[There was] an ulterior motive in joining the Gaelic League. We never meant to be Gaelic Leaguers and nothing more than Gaelic Leaguers'.[50] I Pearse, roedd rhaglenni addysgiadol Gwyddelig yn fodd o adfywio hunaniaeth Wyddelig, ac yn fwy pwysig, roeddent y cam cyntaf ar y llwybr tuag at annibyniaeth.

Cafodd aelodau PGC eu hysbrydoli gan Pearse a'r gynghrair. Disgrifiodd Valentine eu gweithgareddau haf fel modd o sicrhau bod y genhedlaeth nesaf 'nid yn unig yn rhydd ond Gaeleg hefyd'.[51] Rhagwelodd Valentine y dull fel ffordd effeithiol o greu Cymreictod ymysg y genhedlaeth ifanc o'r gwaelod i fyny. Roedd ysgolion haf PGC yn gweithredu'n debyg i'r esiampl Wyddelig: byddai'r trafodaethau'n cael eu cyflwyno yn y Gymraeg (heblaw am y rhai a oedd yn cael eu cynnal gan ymwelwyr rhyngwladol – gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn dod o Iwerddon), a byddai'r ysgolion yn cael eu cynnal yng nghefn gwlad gogledd Cymru. Roedd lleoliad yr ysgol yn symbolaidd o safbwynt gwleidyddol. Cynhaliwyd yr ysgol haf gyntaf ym Machynlleth, un o gonglfeini'r Gymraeg yn y canolbarth, a chynhaliwyd ysgol haf 1930 yn Llanwrtyd, pentref gwledig Cymraeg ei iaith.[52] Ystyriwyd lleoliadau o'r fath fel y rhannau 'coethaf' o Gymru lle y gallai myfyrwyr ddod ar draws yr ysbryd Cymreig. Cynhaliwyd ysgol Machynlleth yn Senedd-dŷ Owain Glyndŵr, dangosydd symbolaidd bod PGC yn gobeithio hybu annibyniaeth wleidyddol Gymreig.[53]

Roedd yr ysgolion haf yn cynnwys sgyrsiau ar hanes, diwylliant a llenyddiaeth Cymru; bu'r aelod o PCG a'r nofelydd Kate Roberts yn rhoi darlithoedd ar lenyddiaeth a'r Gymraeg a'i safle yn y Gymru gyfoesol.[54] Serch hyn, aeth y trafodaethau ymhellach na materion diwylliannol gan ganolbwyntio'n benodol ar bryderon llywodraethol.[55] Yn yr ysgol haf gyntaf, cynhaliodd Kevin O'Shiel, gwleidydd Sinn Féin, sgwrs ar 'drefniadaeth Llysoedd Sinn Féin'.[56] Disgrifiodd Lewis sgwrs O'Shiel fel 'ysgogiad gwirioneddol', ac anogodd ei wrandawyr i gymryd ysbrydoliaeth oddi wrth eu cymdogion cyfeillgar.[57] Wrth ddilyn yr esiampl Wyddelig, roedd yr ysgolion haf yn llwyfan lle y gallai PGC gyfleu eu gweledigaeth ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i fod yn falch o'u gwreiddiau Cymreig.

Roedd ysgol haf 1926 yn cynnwys sgwrs ar 'the fiscal issues of Home Rule and independence'.[58] Hefyd, yn ysgol haf 1927, roedd sgyrsiau ar 'gydweithrediad mewn

---

[50] Ibid, t. 207.
[51] Valentine, Lewis (1932), 'Mam Patrick Pearse', *Y Ddraig Goch*, Mai, 6.
[52] Lewis, Saunders (1935), *Y Frwydr Dros Ryddid* (Caernarfon: Swyddfa'r Blaid Genedlaethol), t. 2.
[53] Owain Glyndŵr oedd yr arweinydd Cymreig olaf i frwydro dros annibyniaeth i Gymru cyn Plaid Genedlaethol Cymru. Roedd Glyndŵr yn Dywysog Cymru ac arweiniodd wrthryfel treisgar yn erbyn llywodraethwyr Lloegr ar ddechrau'r 15fed ganrif.
[54] Lewis, Saunders (1926), 'Dyfodol y Blaid Genedlaethol', *Y Ddraig Goch*, Mehefin, 4.
[55] Davies, Hywel (1983), *The Welsh Nationalist Party 1925–1945: A Call to Nationhood* (New York; St Martin's), tt. 260–8.
[56] Lewis, Saunders (1926), 'Nodiadau'r golygydd', *Y Ddraig Goch,* Awst, 1.
[57] Lewis, Saunders (1926), 'Dyfodol y Blaid Genedlaethol', *Y Ddraig Goch*, Mehefin, 4.
[58] Lewis, Saunders (1927), 'Ysgol Haf Plaid Genedlaethol 1927', *Y Ddraig Goch*, Mawrth, 1.

amaethyddiaeth' ac 'etholiadau seneddol' yn cael eu harwain gan Lewis.[59] Yn fwriadol, roedd y trafodaethau'n awgrymu i'r gynulleidfa bod angen newid gwleidyddol ar Gymru er mwyn datrys prif broblemau'r wlad. Hefyd, roedd yr ysgolion yn cynnig mai PGC yn unig a allai gyflawni'r newidiadau hyn. Yn debyg i ysgolion Pearse, roedd ysgolion haf y Blaid yn ddigwyddiadau diwylliannol-wleidyddol lle y gallent gyffroi eu cynulleidfa gydag ymdeimlad cryf o hunaniaeth genedlaethol yn ogystal â theimlad o ddicter tuag at y modd y cawsant eu cam-drin drwy fod yn rhan o Brydain. Gweithredodd yr ysgolion haf er mwyn creu'r ymdeimlad bod ymwahaniad o Brydain nid yn unig yn angenrheidiol ond yn fuddiol i Gymru.

Benthyg dulliau etholiadol Sinn Féin a wnaeth PGC. Yn y rhyfel, disgrifiodd Valentine gynrychiolwyr Sinn Féin fel arweinwyr 'goleuedig ac argyhoeddiadol' a bod gan Loegr 'reswm i ofni' yn wleidyddol.[60] Rhannodd Lewis edmygedd Valentine am Sinn Féin; mewn un llythyr ysgrifennodd at Margaret Gilcriest (gwraig Wyddelig Saunders Lewis), 'if only you knew how our Sinn Féin movement is growing in South Wales'. Cafodd Lewis ei arwain gan esiampl Sinn Féin ers iddo ddechrau ymddiddori yng ngwleidyddiaeth Cymru.[61]

Glasbrint Arthur Griffith ar gyfer Sinn Féin oedd ymatal rhag cymryd eu seddi yn San Steffan os oedd y Blaid yn ennill yr etholiad, ac yn hytrach ceisio ennill dylanwad gwleidyddol ar lefel leol, a dilynwyd hynny gan PGC. Honnodd Griffith fod Iwerddon y tu ôl i Loegr gan fod datblygiad gwleidyddol ac economaidd Iwerddon wedi'i wreiddio wrth bŵer nad oedd yn gweithio er ei budd neu ei diddordebau ei hun.[62] Roedd Griffith yn ystyried llywodraethau lleol fel y prif beiriant gwleidyddol; credai y dylai arweinydd gwleidyddol adfywio'r genedl ar raddfa drefol, yn hytrach na chynrychioli Iwerddon yn Llundain.[63]

Wedi'i ysbrydoli gan hyn, daeth ymatal rhag San Steffan yn bolisi etholiadol i PGC. Cytunodd Lewis a Valentine 'y byddai'n fethiant i ofyn am ryddid trwy ddadlau yn senedd Lloegr'.[64] Honnodd Lewis, 'Dymunwn ennill y sedd i'w chadw'n wag a gwrthod mynd i'r senedd – yn null mudiad Gwyddelig Sinn Féin'.[65] Galwodd Lewis Valentine ar yr etholwyr i 'dorri pob cysylltiad gyda gwleidyddiaeth Saesneg', gan ddysgu gan Iwerddon. Roedd Lewis a Valentine yn bendant mai ymatal rhag San Steffan fyddai'r brif ffordd o ennill rhyddid i Gymru.[66]

Yn ei eglurhad o'r polisi, mynegodd Lewis fod Iwerddon a Hwngari wedi dangos mai 'gobaith gwag' oedd gofyn am annibyniaeth o fewn senedd cenedl arall.[67] Ymhelaethodd gan

---

59 Lewis, Saunders (1927), 'Nodiadau'r golygydd', *Y Ddraig Goch,* Mai, 1.

60 Lewis Valentine, 'Dros Gymru'n Gwlad, At Etholwyr Sir Gaernafon', yn *Dyddiadur Milwr a Gweithiau Eraill*, Emyr, John (gol.), (Llandysul 1988), tt. 87–8.

61 S. L. at M. G., 31 Hydref 1921, yn Lewis, *Letters to Margaret Gilcriest*, t. 473.

62 Cafodd Griffith ei ysbrydoli gan ymadawiad Hwngari ag ymerodraeth Awstria-Hwngari. Gweler: McGee, Owen (2015), *Arthur Griffith* (Kildare: Merrion Press), t. 73.

63 Laffan, *The Resurrection of Ireland*, t. 29.

64 Lewis, Saunders (1929), 'Nodiadau'r golygydd', *Y Ddraig Goch*, Rhagfyr, 1. Gweler hefyd: Jones, 'Forming Plaid Cymru, Searching for a Policy', t. 195.

65 Ibid, t. 187.

66 Valentine, 'Dros Gymru'n Gwlad', yn Emyr (gol.), *Dyddiadur Milwr*, t. 82.

67 Lewis, Saunders (1929), 'Y Bolisi Seneddol', *Y Ddraig Goch*, Tachwedd, 3.

ddadlau y byddai unrhyw nifer o gynrychiolwyr cenedlaetholgar Cymreig yn 'aneffeithiol' gan y byddent wastad yn y lleiafrif yn San Steffan.[68] Rhybuddiodd Lewis mai'r unig ddewis arall er mwyn atal rheolaeth Seisnig oedd 'creu bygythiadau yn erbyn heddwch yng Nghymru', gan awgrymu mai ymatal neu wrthryfela oedd unig ddewisiadau PGC, gan ddangos ymhellach eu bod yn edrych tuag at esiampl Iwerddon fel eu canllaw ar gyfer ennill annibyniaeth.[69]

Fel Sinn Féin, gobeithiodd PGC greu Cymru Gymreig trwy'r cynghorau lleol.[70] Ar un adeg, mynegwyd 'bod ennill cynghorau lleol yn bwysicach i'r Blaid, na hyd yn oed ennill etholiad seneddol'. Credai PGC mai ar lefel leol y gallent gael yr effaith fwyaf ar fywyd bob dydd y Cymry.[71] O ganlyniad i'r argyhoeddiad hwn, daeth etholiadau lleol yn brif ffocws. Ym mis Mawrth 1928, ymgeisiodd H. R. Jones, un o sylfaenwyr PGC, yn etholiad y cyngor sir yn Neiniolen, ond yn siomedig gorffennodd yn drydydd.[72] Ar ddiwedd 1928, enillodd cynrychiolydd PGC, Fred Jones, sedd ar Gyngor Sir Aberteifi. Er y llwyddiant bach hwn, yn syml nid oedd gan y Blaid yr ymgeiswyr na'r adnoddau i greu unrhyw newid effeithiol ar lefel leol.[73]

Er mai etholiadau lleol oedd prif bwyslais PGC, cymerodd ran mewn etholiadau cyffredinol. Gwnaeth bob ymdrech ar gyfer ei hymgyrch etholiadol cyntaf ar gyfer sedd Caernarfon yn 1929, pan fyddai Valentine – 'arweinydd ysbrydol' PGC – yn sefyll.[74] Ymatal rhag cymryd ei sedd yn San Steffan (pe byddent yn ennill) oedd canolbwynt ei hymgyrch; i Lewis a Valentine, roedd hyn yn cynrychioli eu prif siawns o ennill pŵer gwleidyddol â'u hadnoddau cyfyngedig. Credai Valentine a Lewis y byddai ennill un sedd yn cael effaith enfawr ar achos PGC. 'Pe bai Mr. Valentine yn ennill', ysgrifennodd Lewis, 'byddai'r mudiad cenedlaethol yn lledu fel tân gwyllt drwy Gymru'.[75] Credai y byddai llwyddiant Valentine yn annog cynrychiolwyr gwleidyddol eraill i ystyried ymatal drwy wrthod eistedd yn y senedd, yn ogystal â dal dychymyg y pleidleiswyr, gan ysgogi iddynt ofyn pam fod cynrychiolydd Cymreig yn gwrthod eistedd yn y senedd, ac yn bwysicach gorfodi'r Llywodraeth i wynebu'r modd y gwrthoda'r Blaid ei hawdurdod.[76] Ond yn y pen draw, roedd y polisi ymatal wedi dieithrio pleidleiswyr ac wedi gweithio yn erbyn PGC; llwyddodd Valentine i ennill dim ond 609 o bleidleisiau.[77] Cyhoeddodd Lewis: 'Dydw i ddim yn poeni am y nifer fechan o'n

---

[68] Ibid.
[69] Ibid.
[70] Ibid.
[71] Lewis, Saunders (gol.) (1928), 'Nodiadau'r golygydd', *Y Ddraig Goch*, Chwefror, 1.
[72] Jones, 'Forming Plaid Cymru, Searching for a Policy', t. 190.
[73] Ibid, t. 190–5.
[74] Valentine, *Dyddiadur Milwr*, tt. 25–30.
[75] Lewis, Saunders (1928), 'Paratoi ar gyfer y etholiad cyffredinol', *Y Ddraig Coch*, Mai, 1.
[76] Ibid.
[77] Amddiffynnodd Plaid ei methiant gan awgrymu 'the holding of the elections in May – the month when examinations begin in the universities – was a heavy blow to us'. Roeddent yn amcangyfrif bod 45% o'u demograff yn fyfyrwyr ac athrawon ac nad oeddent yn gallu cymryd rhan yn yr etholiad oherwydd eu hymrwymiadau academaidd. Gweler Jones, 'Forming Plaid Cymru, Searching for a Policy 1926–30', tt. 190–5.

pleidleiswyr yn 1929'. Ond yn breifat, roedd wedi gobeithio ennill – dyma oedd y gyntaf o sawl ergyd a arweiniodd Lewis at gael ei ddadrithio o genedlaetholdeb cyfansoddiadol.[78]

Cymerodd PGC ran mewn llond llaw o etholiadau eraill yn ystod y 1930au. Yn 1931, ymgeisiodd Lewis am sedd Prifysgol Cymru yn yr etholiad cyffredinol gyda disgwyliadau cadarn; addawodd roi 'cyfeiriad newydd' i Gymru.[79] Enillodd Lewis 38.6% o'r pleidleisiau (914 o bleidleisiau) ond collodd i'r cynrychiolydd Rhyddfrydol Ernest Evans. Ymgeisiodd PGC am sedd Caernarfon eto yn 1931, ond dim ond 1,136 o bleidleisiau a enillwyd. Serch hynny, wrth gymharu â 1925 pan enillwyd 609 o bleidleisiau, roedd y rhain yn arwyddion o dwf a gwelliant i'r Blaid: roeddynt wedi ennill dros fil o gefnogwyr ffyddlon yng Nghaernarfon ac ymaelododd nifer o aelodau Prifysgol Cymru â'r Blaid.[80] Ond y gwir oedd eu bod yn y 'political doldrums'.[81] Ar yr un pryd â'r methiannau hyn, disgynnodd nifer y siaradwyr Cymraeg uniaith o 156,000 i 98,000 rhwng 1921 a 1931.[82] Cytunodd Lewis a Valentine fod angen i'r Blaid greu llawer mwy o gyffro os am achub Cymru. Methodd dulliau cyfansoddiadol a diwylliannol â chreu'r cyffro hwn.

## Yr Ysgol Fomio

Wrth i'r 1930au fynd rhagddynt, roedd aelodau eraill o fewn PGC yn gwrthwynebu'r polisi ymatal. Wrth gyhoeddi terfynu polisi ymatal PGC, honnodd Lewis fod y polisi wedi atal aelodau eraill rhag ymladd 'â chalon'.[83] Tra bod Lewis yn parhau'n 'sicr na fyddwn yn llwyddo i gael statws goruchafiaeth trwy San Steffan', yn anfodlon y cytunwyd i derfynu'r polisi. Mewn araith gynharach ar bolisi ymatal, haerodd fod 'pob ymadrodd heddychlon arall yn aneglur ... yn fethiannau'.[84] Erbyn dechrau'r 1930au, roedd PGC wedi methu â chael unrhyw effaith arwyddocaol ar wleidyddiaeth Cymru, tra bod eu hefelychiad o bolisi ymatal Sinn Féin wedi creu ymraniad o fewn rhengoedd PGC.

Wedi methu'n ddiwylliannol ac yn gyfansoddiadol, byddai Lewis a Valentine yn symud at ddulliau mwy radical gan gredu bod yn rhaid iddynt aflonyddu plu gwleidyddol Cymru. Daeth y cyfle yn 1935 pan gyhoeddodd Llywodraeth Prydain gynlluniau i adeiladu ysgol fomio ym Mhenyberth, ardal yr oedd PGC yn ei hystyried yn hynod o werthfawr i ddiwylliant Cymru.[85] Roedd y gwrthwynebiad i'r ysgol fomio yn anferth ac yn eang; fe'i gwrthwynebwyd

[78] Lewis, Saunders (1930), 'Plaid Genedlaethol a'r Dyfodol, Araith y Llywydd at Ysgol Haf Llanwrtyd', *Y Ddraig Coch*, Mehefin, 1–2.

[79] LlGC, ffeil O2239: Saunders Lewis, Wales after the War, Lewis, Saunders (1931), 'Address to the Electors of the University of Wales', t. 1.

[80] Jones, 'Forming Plaid Cymru, Laying the Foundations', t. 446.

[81] Williams, Emyr (2005), 'The Social and Political Thought of Saunders Lewis', traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, t. 218.

[82] Davies, John (1994), *A History of Wales* (Penguin: London), t. 549.

[83] Lewis, Saunders (1930), 'Plaid Genedlaethol a'r Dyfodol, Araith y Llywydd yn Ysgol Haf Llanwrtyd', *Y Ddraig Goch*, Mehefin, 1–2.

[84] Lewis, Saunders (1929), 'Y Polisi Seneddol', *Y Ddraig Goch*, Tachwedd, 3.

[85] Daeth y penderfyniad ar ôl i'r Llywodraeth wynebu gwrthwynebiad lleol i bedwar safle arbrofol yn Lloegr. O ganlyniad i'r gwrthwynebiad i'r pedwar safle yn Lloegr, yn y pen draw dewiswyd Penyberth ym Mhen Llŷn. Er mwyn darllen rhagor am y lleoliadau eraill, gweler Jenkins, *A Nation on Trial*, tt. 10–15.

gan dros 1,000 o sefydliadau gwleidyddol, crefyddol ac addysgol gan gynrychioli dros 250,000 o bobl.[86] Edrychodd Lewis a Valentine ar hyn fel eu cyfle i gynrychioli ewyllys y genedl. Cynhaliwyd ralïau yng ngogledd Cymru a chasglwyd 5,300 o lofnodion ar gyfer deiseb seneddol a anfonwyd at ddirprwyaethau'r Prif Weinidog.[87]

Ceisiodd y Blaid gynyddu'r gefnogaeth i'w hachos cenedlaethol a gwrthwynebiad i'r ysgol fomio. I'r rhan fwyaf o wrthwynebwyr, roedd yr ysgol fomio yn bennaf yn smotyn hyll a digroeso ar y dirwedd, ond gwnaeth PGC ei ailddiffinio fel ymosodiad uniongyrchol ar ddiwylliant Cymreig ac enghraifft bwysig o wendid gwleidyddol Cymru o fewn Prydain. Mewn gwrthdystiad, mynnodd Lewis y byddai'r ysgol fomio yn 'peryglu holl ddiwylliant a thraddodiadau un o ardaloedd mwyaf Cymraeg Cymru'.[88] Roedd ei rethreg yn ceisio 'deffro'r' bobl trwy ddarlunio'r ysgol fomio fel bygythiad i'r genedl Gymreig ei hun.[89]

Pan anwybyddodd y Prif Weinidog brotestiadau'r Blaid, ysgrifennodd Saunders yn *Y Ddraig Goch*: 'mae'r Blaid Genedlaethol yn gwybod bod pob apêl, pob protest ... bellach yn aneffeithiol', gan bortreadu Llywodraeth Prydain fel pŵer nad oedd yn gofalu am y Cymry yr oedd yn llywodraethu drostynt.[90] Pwysleisiodd PGC yn gryf y ffaith bod protestiadau tebyg yn Lloegr wedi arwain at ail-leoli'r ysgol fomio; pwysleisiai'r Blaid fod Cymru'n dioddef anghyfiawnder annheg yn ei hundeb â Lloegr.

Gwrthodiad Llywodraeth Prydain o'u protestiadau oedd y cam terfynol i PGC yn eu hymdrechion i hyrwyddo'r achos cenedlaethol mewn ffordd gyfansoddiadol a heddychlon. Dyma oedd y tro cyntaf y gallent honni eu bod yn cynrychioli ewyllys y genedl o flaen cynulleidfa newydd o gefnogwyr. Nid oedd PGC yn fodlon ildio'r gefnogaeth newydd: dewisasant daro'n ôl yn erbyn y Llywodraeth trwy weithredu'n uniongyrchol.

Yn ystod y cyfnod rhwng y ddau ryfel byd, roedd gweithredu uniongyrchol, hyd yn oed trais, yn aml yn cael ei bortreadu fel gweithred anrhydeddus ac anhunanol.[91] Yn ffosydd y Rhyfel Byd Cyntaf, daeth Lewis i edmygu gweithredu uniongyrchol gwladgarol am y tro cyntaf.[92] Ond, ffynhonnell glir o ysbrydoliaeth oedd y defnydd Gwyddelig o weithredu uniongyrchol yn 1916; fe'i clodforwyd gan Valentine fel y foment pan 'ail-ddeffrowyd y genedl'.[93]

Mewn erthygl yn y *Ddraig Goch*, dyfynnodd Valentine rybudd Pearse: 'there cannot be peace between good and bad, between right and wrong ... between freedom and oppression. They are always at war'.[94] Mae'n anodd deall sut y gall Valentine gyfiawnhau cymryd rhan mewn gweithred dreisgar wrth fod yn heddychwr llafar. Hefyd, fel y soniwyd eisoes yn yr

[86] Ibid., t. 35.
[87] Ibid.
[88] Ibid.
[89] Ibid.
[90] Ibid., t. 37.
[91] McQuillan, Stephen, '"Revolutionaries, Renegades and Refugees": Anti-British Allegiances in the Context of World War I, Warfare', yn Dal Lago, Healy, a Barry (goln), *1916 in a Global Context*, t. 117.
[92] S. L. at M. G., 18 Gorffennaf 1918, yn Lewis, *Letters to Margaret Gilcriest,* tt. 293–4.
[93] Valentine, Lewis (1932), 'Mam Patrick Pearse', *Y Ddraig Goch*, Mai, 6.
[94] Anon (1933), 'Will Ireland Remain in the Empire?', *Y Ddraig Goch*, Gorffennaf, 4–7.

erthygl hon, roedd Valentine yn edmygu Gwrthryfel 1916 er iddo arwain at dros 400 o farwolaethau. Ond gwelwn nad oedd Valentine yn unigryw yn hyn o beth; roedd yn gyffredin i heddychwyr dderbyn trais mewn rhai achosion. Gellir cymharu safbwynt Valentine i'r nofelydd Ffrengig Henri Barbusse; o ganlyniad i'w brofiad yn y Rhyfel Byd Cyntaf, daeth Barbusse, fel Valentine, yn heddychwr llafar. Er hyn, roedd yr heddychiaeth hon yn safiad yn erbyn trais imperialaidd yn hytrach na thrais ei hun. Er ei hunaniaeth fel heddychwr, disgrifiodd Barbusse Chwyldro Rwsia fel 'the greatest and most beautiful phenomenon in world history', er y marwolaethau a'i natur dreisgar.[95] Felly, roedd Barbusse, wrth edrych ar Rwsia, yn fodlon anwybyddu'r trais a ddaeth gydag ideoleg a oedd yn herio imperialaeth. Mae'n bosibl fod Valentine yn uniaethu â'r egwyddor honno.

Felly, mae'n bosibl fod Valentine yn fodlon defnyddio trais (er ar raddfa isel a symbolaidd) yn 1936 ac yn edmygu Gwrthryfel 1916 oherwydd gellir eu dehongli fel gweithredoedd gwrth-imperialaidd. Dan ddylanwad Iwerddon, ystyriodd Valentine fod PGC yn cymryd rhan mewn brwydr Manicheaidd am fodolaeth Cymru, lle mai gweithredu uniongyrchol oedd yr unig opsiwn ar ôl i arbed y genedl rhag y bygythiad imperialaidd.[96] Roedd y pryder hwn yn cymryd blaenoriaeth dros ei hunaniaeth fel heddychwr.

Yn 1932, cwynodd Lewis yn The Welsh Nationalist: 'the whole tone of Welsh nationalism is not challenging enough, not revolutionary enough', a rhybuddiodd yn 1934, 'we who must defend Wales may have to resort to very different methods'.[97] Yng Ngorffennaf 1936, ysgrifennodd Lewis at ei ddarllenwyr: 'There is a proper occasion for principles of freedom and democracy to be declared, and for moral passion to act, and not to exhaust itself in hot air. But action.'[98] Roedd Lewis a Valentine ar ben eu tennyn gyda'u hymdrechion cyfansoddiadol, ac yng ngoleuni esiampl Iwerddon, credent mai gweithredu uniongyrchol oedd yr unig beth a allai achub y genedl Gymreig.

Yn ystod oriau mân yr wythfed o Fedi, taniwyd yr ysgol fomio gan 'y tri'.[99] Cafodd y tân ei gynnau heb ymyrraeth wrth i rai o aelodau ifanc y Blaid ymosod ar y gwyliwr, cyn-filwr arfog o'r Rhyfel Byd Cyntaf, a'i atal. Goleuodd y tân yr ardal gyfagos a bu'r gwasanaeth tân yn gweithio i'w ddiffodd tan y bore canlynol.

Roedd llosgi'r ysgol fomio o bwysigrwydd symbolaidd i Saunders Lewis — llosgi oedd y dewis naturiol iddo. Mewn erthygl yn *Y Ddraig Goch* o 1933 yn dwyn y teitl 'Genedigaeth Cymru Newydd Trwy Dân', defnyddiodd Lewis chwedloniaeth y ffenics er mwyn alegoreiddio cynnydd a chwymp Cymru fel cenedl.[100] Fel yng Nghymru hyd at y Deddfau Uno, bu'r

---

[95] Goodreads, 'Henri Barbusse *Stalin: About the Author*', <https://www.goodreads.com/book/show/20727191-stalin> [Cyrchwyd: 1 Mai 2025].

[96] Anon (1933), 'Will Ireland Remain in the Empire?', *Y Ddraig Goch*, Gorffennaf, 4–7.

[97] Gellid dadlau bod Lewis wastad wedi dymuno gweithredu treisgar dros achos cenedlaetholgar Cymru. Yn 1923, ysgrifennodd 'no conference can save our condition, but discipline and obedience'. Galwodd am 'Welsh battalion': Griffith, Bruce (1989), *Saunders Lewis* (Cardiff: University of Wales), t. 12. Gweler: Lewis, Saunders (1932), 'Revolutionary Aims of the Welsh Nationalists', *Welsh Nationalist*, Mai, 3.

[98] Lewis, Saunders (1932), 'In Ulster Now, A Blackguard Dictatorship', *Welsh Nationalist*, Ebrill, 4.

[99] Yng ngwerth arian heddiw, cost y difrod oedd £200,000.

[100] Lewis, Saunders (1933), 'Genedigaeth Cymru Newydd Trwy Dân: Y Ceiliog neu'r Ffenics', *Y Ddraig Goch*, Mai, 1.

ffenics fyw yn hapus am 1500 o flynyddoedd hyd nes i 'henaint a llesgedd' (trosiad am reolaeth Seisnig) ddod arnynt.[101] Yn ei gyflwr marwol, byddai'r ffenics yn 'llosgi ei hun mewn tân, o'r lludw byddai'n codi'n ffenics ifanc, hardd' a fyddai'n 'hedfan yn fuddugol'.[102] Yn y stori hon, awgrymodd y gallai Cymru gael ei 'geni o'r newydd' pe bai ganddi'r un 'ffydd' â'r ffenics; gobeithiodd y byddai ymwybyddiaeth Gymreig newydd yn codi o ludw Penyberth.[103]

Dysgodd PGC o wersi'r gwrthryfel fod yn rhaid i weithredu uniongyrchol fynd law yn llaw ag aberth, gan mai aberth 1916 a enillodd y calonnau Gwyddelig yn ôl dealltwriaeth Lewis a Valentine o'r gwrthryfel. Yn ei erthygl 'Time to Strike' – a gyhoeddwyd dan y ffugenw Mr. X yn y Western Mail yn 1935 – sylw cyntaf Valentine oedd ynghylch aberth Pearse a'r effaith hirdymor a gafodd ar y cyhoedd Gwyddelig.[104] Edmygai PGC ei aberth a'i effeithiau; ysgrifennodd Lewis (gan adlewyrchu ar ei fudiad ei hun), 'Sylweddolodd Pearse na allai achub Iwerddon trwy addysg, darlithoedd a llenyddiaeth ... yr unig ffordd i ddeffro'r genedl oedd trwy gymryd y llwybr aberthol'.[105] Mewn un drafodaeth yn arwain at Benyberth, gan gyfeirio at ferthyron 1916, cytunodd Valentine a Lewis fod angen moment hunanaberthol ar genedlaetholdeb Cymraeg.[106] Ysbrydolodd yr enghraifft Wyddelig eu cred y gallai hunanaberth gyfrannu'n gadarnhaol at achos gwleidyddol PGC.

Yn hytrach na dianc o'r ysgol fomio heb i unrhyw un dystio i'w gweithred, dewisodd y tri fynd i orsaf heddlu Pwllheli gyda llythyr yn cyfaddef i'r drosedd. Roeddent yn gobeithio y byddai eu haberth o'u rhyddid personol yn achosi tristwch cenedlaethol, o'r fath a allai ddeffro ac yna uno'r Cymry y tu ôl i achos y Blaid. Ysbrydolwyd y penderfyniad o gyfaddef i'r drosedd gan effaith gwrthryfel 1916. Ar ôl i'r gwrthryfelwyr ildio a chael eu dienyddio, arestiwyd tua 3,400 o bobl eraill yr oedd yr awdurdodau Prydeinig yn eu gweld fel bygythiad, gan gynnwys pobl nad oeddent wedi chwarae rhan yn yr ymladd, megis Arthur Griffith.[107] Wedi iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar cawsant eu trin fel arwyr a daethant yn ddylanwadol mewn gwleidyddiaeth Wyddelig; pan sefydlodd Sinn Féin Senedd Wyddelig, y Dáil Éireann, yn 1919, roedd 46 o'r 68 aelod cyntaf wedi profi amser yn y carchar.[108] Roedd y tri'n gobeithio y byddai eu carchariad am weithred a luniwyd fel amddiffyniad o fodolaeth Cymru yn ennill cydymdeimlad cyffredinol ac yn datblygu i greu grym gwleidyddol. Wedi ei ysbrydoli gan yr esiampl Wyddelig, mor gynnar â 1923, roedd Lewis wedi galw am 'prison martyrs' Cymraeg i hyrwyddo'u hachos.[109] Yn eu llythyr agored a oedd yn cyfaddef i'r drosedd, rhesymodd y tri: 'Gan fod yn rhaid i rai ddioddef er mwyn

[101] Ibid.
[102] Ibid.
[103] Ibid.
[104] Mr. X. (1935), 'Time To Strike', *Western Mail*, 31 Rhagfyr, 9.
[105] Lewis, Saunders (1933), 'Cenedlaetholdeb Padraig Pearse', *Y Ddraig Goch*, Hydref, 6.
[106] Vittle, *Cofiant i Lewis Valentine*, t. 171.
[107] Laffan, *The Resurrection*, t. 53.
[108] Roedd y mwyafrif o arweinwyr gwleidyddol Sinn Féin yn 1917 yn gyn-carcharorion. Enillodd Arthur Griffith etholiad Dwyrain Cavan ym mis Mehefin tra'r oedd yng ngharchar Reading. Laffan, *The Resurrection*, tt. 50–60.
[109] Williams, *When Was Wales?*, t. 280.

Cymru, ceisiasom yr anrhydedd o fod ymhlith y cyntaf'. Gobeithient y byddai eu carcharu yn ysbrydoli eraill i ymuno yn eu gwrthryfela yn erbyn y Llywodraeth Brydeinig.[110]

Cyn y carcharu, aethant i'r llys, a'u bwriad oedd y byddai hyn yn llwyfan i'w haberth. Defnyddiodd y dynion eu hachos llys fel ffordd o dynnu sylw at statws israddol y Gymraeg ym Mhrydain, trwy wrthod amddiffyn eu hunain yn Saesneg.[111] Roedd mynnu defnydd o'r Gymraeg yn y llysoedd yn ddyhead pwysig i PGC ers 1925; erbyn 1936, credai'r dynion mai'r unig ffordd y gallent gyflawni hyn oedd trwy siarad Cymraeg yn y llys eu hunain.

Ar ddechrau'r achos, er syndod i bawb yn y llys, atebodd Lewis a Valentine y cwestiynau cyntaf yn y Gymraeg. Mewn ymateb i gwestiwn y barnwr di-Gymraeg (a addysgwyd yn Eton) os oeddent yn medru siarad Saesneg, atebodd Lewis a Valentine mai 'Cymraeg yw fy mamiaith', ac yn annisgwyl (hyd yn oed i'r tri eu hunain efallai) caniataodd y barnwr iddynt siarad yn Gymraeg.[112]

Yna, pan drodd y barnwr i gyfathrebu â'r rheithgor, torrodd Valentine ar ei draws gyda'r datganiad: 'Rwy'n eich gwrthwynebu oherwydd nad ydych yn siarad Cymraeg'.[113] Mewn golygfeydd na welsant eu bath o'r blaen, disodlwyd y rheithgor uniaith Saesneg; roedd Lewis a Valentine wedi troi eu hachos wyneb i waered wrth fynnu am driniaeth gyfartal i'r iaith Gymraeg. Gan nad oedd y barnwr yn gallu siarad Cymraeg, pan roddodd y tri eu hamddiffyniad, bu'n rhaid iddynt oedi rhwng pob brawddeg er mwyn i'r cyfieithydd allu eu cyfathrebu i'r barnwr.[114] Mae ymchwil ddiweddar yn awgrymu fod y tri wedi cymryd mantais o fwlch cyfreithiol i ganiatáu eu defnydd o'r Gymraeg. Yn eu hanfod, roedd y Deddfau Uno yn gwahardd y Gymraeg fel iaith swyddogol a allai gael ei defnyddio yn y llysoedd barn. Serch hyn, cafodd arferion Cymreig Hywel Dda eu hachub mewn tair sir (gan gynnwys Caernarfon), gan olygu y gellid parhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyfreithlon yno. Trwy ddefnyddio'r bwlch cyfreithiol hwn, llwyddodd y tri i dynnu sylw at statws israddol y Gymraeg ym Mhrydain.[115]

Nid oedd gan eu hamddiffyniad yn y llys bron dim i'w wneud â llosgi'r ysgol fomio; yn hytrach, roedd araith Lewis a Valentine yn canolbwyntio ar ddarostyngiad gwleidyddol a diwylliannol Cymru.[116] Haerodd Lewis, 'I Gymru, mater o fywyd a marwolaeth' oedd cadw Penrhyn Llŷn o'r Seisnigeiddio.[117] Pan soniodd y barnwr am gost ariannol y difrod, canolbwyntiodd Lewis ar arbedion ysbrydol Cymru; dywedodd wrth y rheithgor, 'Ni allwch

---

[110] Yr unig ddefnydd o drais corfforol yn yr ymosodiad oedd atal y gwyliwr David Davies, sef cyn-filwr un fraich o Ypres: Jenkins, *A Nation on Trial*, t. 42.

[111] Nid oedd y Gymraeg yn iaith swyddogol ym Mhrydain; fe'i hystyriwyd yn 'iaith dramor', a byddai siarad Cymraeg yn y llys yn y 1930au yn ddigynsail.

[112] Dewisodd Lewis a Valentine gynrychioli eu hunain yn yr achos llys. Roedd Williams yn cael ei gynrychioli gan gyfreithiwr, ond roedd hefyd yn galw am yr hawl i gyfathrebu yn y Gymraeg.

[113] Jenkins, *A Nation on Trial*, tt. 57–8.

[114] Ibid.

[115] Owen, G., Cahill, D. a Foden, P. (2017), 'The Acts of Union 1536–43—Not Quite the End of the Road for Welsh Law?', *Proceedings of the Harvard Celtic Colloquium*, 37(1), t. 222.

[116] NLW, Lewis, Saunders, a Valentine, Lewis (1936), *Paham y Llosgasom yr ysgol Fomio* (Caernarfon: Swyddfa'r Blaid Genedlaethol), t. 16.

[117] Lewis a Valentine, *Paham y Llosgasom yr Ysgol Fomio*, tt. 7–8.

gyfrifo mewn ffigurau golled anadferadwy iaith ... traddodiad o wareiddiad gwledig Cymreig ... Nid oes pris i'r pethau hyn'.[118] Roedd yn ailfframio'r llosgi o fod yn weithred o hwliganiaeth i un o aberth anhunanol er mwyn achub ysbryd y genedl Gymreig.[119] Pwysleisiodd mai 'mater gwleidyddol' oedd yr ysgol fomio, a disgrifiodd adeiladu'r ysgol fomio fel gweithred o fandaliaeth a gyflawnwyd gan y wladwriaeth Seisnig.[120] Defnyddiodd Lewis yr achos llys fel llwyfan i geisio argyhoeddi ei gynulleidfa newydd fod angen ymwahaniad swyddogol rhwng Cymru a Lloegr oherwydd y gamdriniaeth ddiwylliannol a gwleidyddol a ddioddefodd Cymru dan law Lloegr.

Cyflwynodd Valentine neges debyg: haerodd fod y tri wedi taro'n ôl yn erbyn y llywodraeth a oedd yn 'peryglu bodolaeth ein cenedl'.[121] Wedi'i aflonyddu gan ei brofiad o'r Rhyfel Byd Cyntaf, cyfeiriodd at filitariaeth Saesneg fel bygythiad marwol i fywyd Cymru. Dywedodd nad oedd yn dymuno gweld 'llygredigaethau a diffygion' bywyd milwrol yn llygru Llŷn. Haerodd na fedrai ddioddef gweld y 'tir sanctaidd' yn cael ei halogi gan waith 'drwg a di-Dduw' y fyddin Seisnig.[122] Cymharodd Valentine yr ysgol fomio â'r golled enfawr o fywydau Cymreig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf; awgrymodd fod PGC yn gwarchod bywydau Cymreig yn ogystal â diwylliant gyda'u hymosodiad yn erbyn yr ysgol fomio. Dywedodd Valentine ei fod wedi cymryd rhan yn y llosgi oherwydd bod yn rhaid iddo 'wrthod yn ddidostur y wladwriaeth Saesneg i hyd yn oed trafod hawliau'r genedl Gymreig'.[123] Roedd yn ceisio argyhoeddi pobl ynghylch y diffyg grym a rheolaeth a oedd gan y Cymry dros faterion Cymreig, gan awgrymu'n glir mai ymwahaniad o Loegr oedd yr ateb.

Gyda'r newyddion am ddatblygiad yr achos yn lledaenu trwy Caernarfon, amcangyfrifodd Owen Owens, pennaeth yr heddlu, fod tua 2,000 wedi dod i'r llys i glywed y dyfarniad: roedd y tri wedi ennill diddordeb digynsail dros achos PGC, felly. Cafodd yr areithiau gwladgarol a'r aberth effaith ddofn ar y rheithgor. Er i'r tri gyfaddef iddynt losgi'r ysgol fomio, ac er i'r barnwr honni nad oedd credoau'r tri yn cyfiawnhau 'the taking of the law into our own hands and doing what these three men did', methodd y rheithgor â dod i gasgliad.[124] Pan gadarnhaodd y barnwr am hanner awr wedi pump yn y prynhawn nad oedd dyfarniad wedi'i gyrraedd, roedd canu bywiog o *Hen Wlad Fy Nhadau* i'w glywed yn dod o du allan i'r llys. Pan ddaeth y tri allan o'r llys, yn ôl Owens: 'it was necessary for the police to use considerable force to restrain the crowd from swarming them in jubilation'.[125] Enillodd y tri lawer o gefnogaeth newydd; roedd nifer y bobl a ymgasglodd y tu allan i lys Caernarfon yn fwy na dwbl y niferoedd a bleidleisiodd drostynt yn 1929.[126] Dyblodd y gwerthiant o bapurau newydd Saesneg a Chymraeg PGC; ar yr un pryd, gwerthwyd 5,000 o

118 Ibid., t. 15.
119 Ibid.
120 Ibid, t. 14.
121 Ibid, t. 27.
122 Ibid, tt. 25–6.
123 Ibid, t. 16.
124 Jenkins, *A Nation on Trial*, t. 89.
125 Ibid, tt. 100–2.
126 Ibid.

gopïau o 'Paham y Llosgasom yr Ysgol Fomio' gan Lewis a Valentine o fewn tair wythnos i'r achos llys. Creodd eu moment o weithredu aberthol ddiddordeb anghymharol yn PGC. Er enghraifft, newidiodd y Western Mail ei dôn yn arw: cyn yr achos, yn ystod gwrthwynebiad PGC i'r ysgol fomio, cafodd PGC ei disgrifio ganddynt fel 'a queer aggregation of pacifists, nationalists and landscape conservationists'[127]; ar ôl Caernarfon, roedd y golygydd bellach yn clodfori'r digwyddiad fel 'the first time for six centuries – since the days of Owain Glyndŵr – that charges of law-breaking have been brought against the protagonists of Welsh independence'.[128] Roedd PGC wedi mynd o fod yn destun sbort i fod yn un o'r symbolau mwyaf a phwysicaf dros annibyniaeth i Gymru erioed.

Arweiniodd yr helynt at y Brawdlys yn dod i'r casgliad 'na ellir cael treial teg a diduedd yng Nghaernarfon', a chadarnhawyd y byddai'r ail achos yn cael ei gynnal yn Llundain, lle nad oedd defnydd o'r Gymraeg yn y llys yn gyfreithlon.[129] Roedd y cyhoedd yng Nghymru wedi'u siomi gan y penderfyniad hwn, ac anfonwyd miloedd o lythyrau at gynrychiolydd seneddol Cymreig yn gwrthwynebu'r penderfyniad. Am gyfnod, roedd yn ymddangos bod hunanaberth Lewis a Valentine wedi arwain at gefnogaeth wleidyddol frwd i'r Blaid.[130]

Ni fu'n bosibl i Lewis a Valentine ddefnyddio'u sgiliau areithiol yn yr ail achos, ond roedd eu safiad dros yr achos cenedlaethol yr un mor effeithiol â'r hyn a welwyd yn yr achos cyntaf. Ar ddechrau'r achos, dywedodd Lewis wrth y barnwr, yn Gymraeg, ei fod yn 'gwrthod awdurdod y llysoedd'.[131] Pan rybuddiodd y barnwr: '[siarad yn] Saesneg, neu ddim o gwbl', siglodd Lewis ei ben yn ffyrnig.[132] Pan ofynnodd y barnwr yr un cwestiynau i Valentine, ebychodd 'dim gair, fy arglwydd!'.[133] Yna, amlinellodd y barnwr fod y tri wedi llosgi'r ysgol fomio a chyfaddef i hynny, ac o fewn munudau roedd y rheithgor wedi dyfarnu'r tri yn euog.[134] Cafodd y tri eu dedfrydu i naw mis yng Ngharchar Wormwood Scrubs. Hon oedd eu moment o aberth: yn Llundain, trwy gael eu gadael yn ddiamddiffyn heb yr hawl i ddefnyddio eu mamiaith, daeth aberth y tri yn chwedl o statws israddol Cymru o fewn Prydain. Ar sail yr un egwyddor – ond nid i'r un graddau – ag y dienyddiwyd gwrthryfelwyr 1916 heb brawf, carcharwyd y tri heb allu amddiffyn eu hunain mewn gwrandawiad teg.

Fodd bynnag, daeth yr aberth hwn â theimlad o foddhad i Lewis a Valentine. Mewn un llythyr o'r carchar, ysgrifennodd Lewis at ei wraig Margaret Gilcriest: 'I am quite content in my mind that we've done our duty'.[135] Yn yr un modd, mewn llythyr arall, nododd: 'Valentine said yesterday that this was the happiest St David's day of his life – to be spending it here for the sake of St David's country'.[136] Roedd ganddynt deimlad o falchder o gael eu carcharu

[127] Anhysbys (1936), 'Forthcoming Events', *Western Mail,* 25 Mai, 8.
[128] Anhysbys (1936), 'Welsh Nationalists' Trial', *Western Mail*, 13 Hydref, 9.
[129] Jenkins, *A Nation on Trial*, t. 102.
[130] Ibid.
[131] Ibid., tt. 112–14.
[132] Ibid.
[133] Ibid.
[134] Ibid.
[135] S. L. at M. G., 3 Mai 1937, yn Lewis, *Letters to Margaret Gilcriest*, t. 599.
[136] S. L. at M. G., 2 Mawrth 1937, yn Ibid, tt. 583–4.

yn enw'r achos cenedlaethol. Dywedodd Valentine 'na freuddwydiasom y byddai'r bobl yn deffro mor sydyn'; credasant fod eu haberth yn llwyddiant a ysbrydolodd gydymdeimlad cenedlaetholgar ymhlith y Cymry a fyddai'n troi'n bŵer gwleidyddol i PGC.[137] Ar ôl eu rhyddhau o'r carchar, cafodd y tri eu croesawu yn ôl yng Nghaernarfon gan dorf o 15,000, ond ni wnaeth y gefnogaeth hon yn y diwedd arwain at y grym gwleidyddol yr oeddent wedi gobeithio amdano.[138] Cwynodd Lewis fod y blaid, yn ei absenoldeb, wedi gwastraffu amser yn 'brwydro am ddamcaniaethau economaidd yn lle bwrw ymlaen i fedi cynhaeaf yr ysgol fomio'; roedd yn flin nad oedd y tân symbolaidd a grëwyd gan y tri yng ngwleidyddiaeth Cymru wedi parhau i losgi.[139]

Yn 1937, cyhoeddwyd *Canlyn Arthur: Ysgrifau Gwleidyddol* o waith Saunders Lewis, sef amlinelliad o weledigaeth gymdeithasol ac economaidd PGC ar gyfer Cymru, ond cafodd ymateb negyddol gan ddieithrio'r rhai a oedd â diddordeb yn PGC ar ôl yr ysgol fomio.[140] Rhybuddiodd gohebydd y Western Mail y byddai cynigion Lewis yn arwain at un canlyniad: '[to] reduce us [Wales] to the level of a nomadic tribe of dervishes'. Disgrifiwyd yr holl beth fel 'everything inimical to progress', a beirniadwyd polisi economaidd-gymdeithasol PGC yn ffyrnig, er gwaethaf cyfnod yr arweinwyr yn y carchar.[141] Defnyddiodd aelod o PGC, O.M Roberts, y gyfatebiaeth hon: 'cododd tymheredd y dŵr, ond ni ferwodd'.[142] Trwy weithred aberthol, denodd Lewis a Valentine ddiddordeb poblogaidd yn achos PGC, ond ni allent ei gynnal. Roedd eu hymgyrch wleidyddol, am eiliad, yn llamu tuag at lwyddiant yn 1936, ond roedd methiant Lewis i amlinellu rhaglen economaidd-gymdeithasol yn golygu eu bod wedi methu â chynnal y poblogrwydd a enillwyd ganddynt trwy aberthu eu rhyddid. Ar ôl popeth, ni chafwyd y llwyddiant a obeithiwyd ganddynt.

## Canlyniad

Nid 'mudiad cymdeithasol' yn unig oedd PGC, fel yr awgrymodd Hywel Davies; yn ddigwestiwn ac yn groes i gasgliad Laura McAllister, roedd yn fudiad gwleidyddol difrifol.[143] Roedd pryderon diwylliannol y Blaid ynghlwm wrth gyflwr cymdeithasol-economaidd Cymru: roedd diwydiannu cymdeithasol Cymru'n gyfystyr â'i Seisnigeiddio. Ymhellach, drwy roi pwyslais ar iaith, ceisient ennill cydnabyddiaeth i'r genedl Gymreig a phwysleisio cenadwri PGC fod Cymru angen ymwahaniad gwleidyddol o Loegr.[144] Deilliodd polisi ieithyddol PGC o absenoldeb y Gymraeg mewn llywodraeth, y llysoedd ac ysgolion: roedd felly'n fater gwleidyddol.

---

137 Valentine, 'Beddau'r Byw', yn Emyr (gol), *Dyddiadur Milwr*, tt. 109–11.

138 Jenkins, *A Nation on Trial*, t. 114.

139 Ar ôl ei amser yn y carchar, aeth Valentine i bregethu'n llawn amser ac yn raddol ymbellhaodd o wleidyddiaeth, gan nodi cyfnod tawelach yn ei fywyd ar ôl Penyberth: Vittle, '*Cofiant i Lewis Valentine',* tt. xxxiv.

140 Lewis, Saunders (1938), *Canlyn Arthur: Ysgrifau Gwleidyddol* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth).

141 Anhysbys (1942), 'Welsh By-election', *Western Mail*, 4 Rhagfyr, 2.

142 Roberts, O. M. (1994), *Oddeutu'r Tân* (Gwasg Gwynedd: Caernarfon), t. 94.

143 Davies, *A Call to Nationhood*, tt. 260–8. McAllister, *Plaid Cymru*, t. 30.

144 Kymlicka, Will, a Patten, Alan (2003), *Language Rights and Political Theory* (Oxford: Oxford University Press), t. 5.

Rhwng cynnal yr ysgol haf gyntaf yn 1926 a'r llosgi ym Mhenrhyn Llŷn yn 1936, ceir degawd lle yr oedd PGC yn adlewyrchu datblygiadau gwleidyddol cenedlaetholwyr diwylliannol Gwyddelig, a wnaeth drawsnewid ei hun o genedlaetholdeb diwylliannol i genedlaetholdeb treisgar. Fel ysgol haf y Gynghrair Aeleg ac ymdrechion addysgiadol Pearse, ceisiodd PGC gynnig i'r genhedlaeth ifanc ymdeimlad arwyddocaol o'i hunaniaeth fel siaradwyr Cymraeg. I gyd-fynd â mynegiant PGC o unigrywiaeth Cymru fel rhan o Brydain, roedd yn atgoffa'u dilynwyr eu bod mewn brwydr am eu goroesiad diwylliannol yn wyneb diwydiannaeth Seisnig llygredig. Roedd ymgyrch wleidyddol PGC yn gopi carbon o bolisi ymatal Arthur Griffith, ond byddai methiant erchyll hyn yn gwthio penderfyniad Lewis a Valentine i gyflawni gweithred o hunanaberth gwladgarol yn 1936.[145]

Mae'r hanesydd Gearóid Barry wedi dangos bod Gwrthryfel y Pasg yn drobwynt cyffrous ac ysbrydoledig ar gyfer protestiadau, terfysgoedd a chwyldroadau gwleidyddol – yn arbennig rhai gwrth-imperialaidd – ar raddfa fyd-eang.[146] Er bod y digwyddiadau yn Iwerddon a Chymru wedi digwydd ar raddfa wahanol iawn, egwyddorion a ddysgodd Lewis a Valentine am Wrthryfel 1916 a yrrodd eu parodrwydd i aberthu eu rhyddid a defnyddio dulliau anghyfansoddiadol fel rhan o'u hachos cenedlaetholgar. Roeddent yn meddwl mai gweithredu uniongyrchol oedd yr unig ffordd ar ôl i lwyddo yn eu hymgyrch i achub y genedl. Yn fwy na hyn, roedd llwyddiant Sinn Féin ar ôl carchariad y rhai a oedd yn gysylltiedig â Gwrthryfel 1916 yn awgrymu i PGC y gallasai treulio amser mewn carchar drosi'n llwyddiant gwleidyddol. Felly, roedd cenedlaetholwyr Gwyddelig yn llawer mwy dylanwadol o ran datblygiad PGC nag oedd Action Française a Maurice Barrés. Mae angen i haneswyr Cymru ymchwilio ymhellach i'r cysylltiad Gwyddelig hwn.

Yn 1961, gan adlewyrchu ar ei ymdrechion fel arweinydd PGC, dywedodd Lewis yn sinigaidd, 'I failed utterly'.[147] Ni ellir disgwyl i fudiad ymylol a thlawd o genedlaetholwyr Cymreig lwyddo yn eu hymgais i 'newid cwrs Cymru' dros yr ugain mlynedd rhwng y ddau ryfel byd.[148] Wrth edrych yn ôl, roedd damcaniaethau a dyheadau PGC yn or uchelgeisiol, wrth iddi ymgeisio i drosglwyddo achos cenedlaetholdeb Cymreig o fod yn bryder diwylliannol ychydig o ysgolheigion i fod yn ofid cymdeithasol ar lefel genedlaethol. Mae'n bosibl bod methiant, felly, wastad yn anochel; serch hynny – i Saunders Lewis a Lewis Valentine – roedd y posibilrwydd o lwyddiant yn cael ei danio gan yr enghraifft Wyddelig.

Wrth arwain y gwrthwynebiad i'r ysgol fomio, cynrychiolwyd buddiannau dros 250,000 o Gymry a 100 o sefydliadau Cymreig. Cawsant eu croesawu yn ôl o'r carchar gan 15,000 o bobl, ac am eiliad, edrychai eu gweledigaeth o ryddfreinio Cymru fel cenedl yn bosibl. Mae'r damcaniaethwr Miroslav Hroch yn dadlau na allai mudiadau cenedlaethol na allent fynegi buddiannau economaidd y dosbarthiadau a'r grwpiau penodol a oedd yn ffurfio'r genedl

145 Valentine, 'Beddau'r Byw', yn Emyr (gol.), *Dyddiadur Milwr*, tt. 109–11.
146 Dal Lago, Healy, Barry (goln), *1916 in a Global Context*, tt. 1–2.
147 Jones, Darryl (1996), '"I Failed Utterly": Saunders Lewis and the Cultural Politics of Welsh Modernism', *The Irish Review*, 19 (22), t. 22.
148 Jones, '"I Failed Utterly"', tt. 22–4.

fach fyth gael llwyddiant gwleidyddol.[149] Trwy losgi'r ysgol fomio, daeth PGC o hyd i achos yr oedd eraill yn gallu uniaethu ag ef, ond roedd y modd y soniai Lewis am greu cymdeithas gydweithredol ddad-ddiwydiannol o siaradwyr Cymraeg yn *Canlyn Arthur* wedi gwrthyrru'r cefnogwyr newydd, ac yn y pen draw wedi atal PGC rhag troi yn fath o 'rym gwirioneddol', fel y breuddwydiai Lewis amdano.[150]

Wrth bori yn ôl dros hyn i gyd, felly, gwelwn i Lewis fethu'n llwyr. Ni ddaeth delfrydau uchel PGC o'r cyfnod rhwng y rhyfeloedd yn rhan o bolisi'r Llywodraeth; hyd heddiw, mae Cymru'n parhau i fod yn unedig â Lloegr mewn cyd-destun diwydiannol a diwylliannol; a hefyd, iaith bennaf Cymru yw Saesneg.[151]

Fodd bynnag, serch methiannau PGC, sefydlwyd sylfaen ddamcaniaethol bwysig i wleidyddiaeth a chymdeithas Cymru heddiw yn y blynyddoedd dan arweiniad Saunders Lewis a Lewis Valentine.[152] Byddai nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn annirnadwy heb ymdrech PGC rhwng y rhyfeloedd, a'r ffordd y gwnaethant wthio'r gred na all Cymru fod yn Gymreig heb ei hiaith. Mewn ffordd sydd yr un mor bwysig, roedd aberth y tri yn foment lle yr oedd tynged yr iaith o ddiddordeb ar raddfa dorfol am y tro cyntaf. Oni bai bod y tri wedi gwrthod siarad Saesneg yn y llys yng Nghaernarfon (ac yn Llundain), ni fuasai Deddf Llysoedd Cymru (1942), sy'n caniatáu i'r Gymraeg gael ei defnyddio yn holl lysoedd Cymru, wedi dod i fodolaeth.[153] Ni ellir gwadu mai ymdrechion PGC rhwng y rhyfeloedd i ennill balchder yn y Gymraeg yw sylfaen ymwybyddiaeth genedlaethol Gymreig heddiw. Er eu methiant cyffredinol, gwnaethant lwyddo i ysbrydoli'r genhedlaeth ddilynol i ofalu am ei hiaith.

---

[149] Hroch, Miroslav (1985), *Social Preconditions of National Revival in Europe: A Comparative Analysis of the Social Composition of Patriotic Groups Among Smaller European Nations* (Cambridge: Cambridge University), t. 186.

[150] Hroch, *Social Preconditions*, t. 186. S. L. at M. G., 3 Mai 1937 a 26 Mai 1937, yn Lewis, *Letters to Margaret Gilcriest*, t. 509, t. 605.

[151] Amcangyfrifir bod tua 29.5% o boblogaeth Cymru yn gallu siarad Cymraeg yn 2022. Llywodraeth Cymru, 'Data am y Gymraeg o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth: 2022', *Ystadegau ac Ymchwil*, 25 Ebrill 2023, <https://www.gov.wales/welsh-language-data-annual-population-survey-2022> [Cyrchwyd: 10 Mai 2023].

[152] Hroch, *Social Preconditions*, t. 186.

[153] Government Legislation (1942), 'Welsh Courts Act 1942, *UK Public General Acts*', 22 Hydref, <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo6/5-6/40/enacted> [Cyrchwyd: 10 Hydref 2023].